

## Polisi Rhyddid Gwybodaeth

---

Mae ein Polisi Rhyddid Gwybodaeth yn amlinellu ein dull o reoli ein dyletswyddau o ran y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth, gan gynnwys ein cynllun cyhoeddi a'n hymateb i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

Statws y ddogfen Cymeradwywyd
Fersiwn: 4
Dyddiad cymeradwyo: 30 Ionawr 2024
Yn weithredol o: Chwefror 2024
Perchennog: Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth
Awdur: Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth
Dyddiad adolygu nesaf arfaethedig: Chwefror 2027

## Cynnwys

---

Datganiad polisi, pwrpas a chwmpas.....	1
Crynodeb o’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.....	1
Eithriadau.....	1
Trin Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth .....	1
Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth - Apeliadau a chwynion .....	1
Rheoliadau Aildefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015 .....	1



## 1. Datganiad Polisi

---

1.1 Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw mynd ati'n effeithiol i reoli'r ffordd rydym yn defnyddio ac yn storio gwybodaeth i sicrhau ein bod yn glynu wrth y ddeddfwriaeth data gyfredol.

## 2. Pwrpas

---

2.1 Mae'r polisi diogelu data hwn yn nodi ein hymrwymiad i'r canlynol:

- cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data gyfredol;
- amddiffyn hawliau ein cyflogeion;
- bod yn agored ac yn dryloyw ynghylch sut rydym yn storio ac yn prosesu gwybodaeth;
- helpu i liniaru risgiau torri rheolau data;
- rhoi'r offer a'r adnoddau sy'n cefnogi arferion da o ran llywodraethu gwybodaeth.

## 3. Cwmpas

---

3.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r canlynol:

- Cyflogeion (boed yn barhaol neu dros dro) a gweithwyr;
- Aelodau;
- Contractwyr sy'n gweithio gyda, neu ar ran, y Cyngor Optegol Cyffredinol.

3.2 Mae cydymffurfio â'r polisi hwn yn orfodol. Os nad yw cyflogeion, aelodau na gweithwyr yn cydymffurfio, gellir ystyried hyn yn fater disgyblu.

3.3 Os oes angen rhagor o gyngor ac arweiniad arnoch chi, dylech gysylltu â'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn [IG@optical.org](mailto:IG@optical.org).

## 4. Crynodeb o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

---

4.1 Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (y Ddeddf) yn rhoi'r hawl i unigolion ofyn am wybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus. Bwriad y Ddeddf yw hyrwyddo diwylliant o dryloywder ac atebolrwydd ymysg cyrff yn y sector cyhoeddus a chynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o sut mae awdurdodau cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswyddau, y rhesymau y tu ôl i'w penderfyniadau a sut maent yn gwario arian cyhoeddus.

4.2 Mae pob cais Rhyddid Gwybodaeth yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth ganlynol;

- GDPR y DU a Deddf Diogelu Data – sy'n rhoi hawl i unigolion gael gafael ar wybodaeth amdany'n nhw eu hunain;
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 – sy'n rhoi hawl i unigolion gael gafael ar wybodaeth amgylcheddol. Mae'r rhain yn berthnasol i wybodaeth sy'n cael ei dal gan neu ar ran cyrff cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus.

4.3 Mae'r holl wybodaeth rydym yn ei chreu neu'n ei storio yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf ar yr amod:

- ein bod ni'n cadw'r wybodaeth yn ein meddiant;
- ein bod ni wedi darparu'r wybodaeth i gorff cyhoeddus arall;
- bod yr wybodaeth yn cael ei chadw gan drydydd parti ar ein rhan.

## 5. Eithriadau

---

5.1 Er ein bod ni bob amser yn ceisio ymateb yn llawn i geisiadau, nid oes gan bobl yr hawl i gael yr holl wybodaeth y maent yn gofyn amdani bob amser. Darllenwch ein polisi datgelu i gael rhagor o wybodaeth.

5.2 Rhaid ystyried bod gwybodaeth sy'n cael ei rhyddhau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cael ei rhyddhau i'r cyhoedd.

5.3 Ar hyn o bryd, mae 23 eithriad o'r hawl i gael mynediad at wybodaeth, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn rhan 2 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Yn gyffredinol, mae dau fath o eithriad;

- Eithriadau absoliwt – Pan na fydd gwybodaeth yn cael ei datgelu o dan unrhyw amgylchiadau.
- Eithriadau cymwys – Pan fyddwn yn canfod eithriad posibl ond mae'n rhaid i ni bwysu a mesur buddiannau sy'n cystadlu a'i gilydd i benderfynu a yw'n well cadw'r wybodaeth yn ôl neu ei datgelu er budd y cyhoedd. Gelwir hyn yn brawf budd y cyhoedd.

5.4 Dyma enghreifftiau o eithriadau absoliwt;

- Adran 21 – Gwybodaeth sy'n rhesymol hygyrch drwy ddulliau eraill
- Adran 40 – Gwybodaeth bersonol
- Adran 41 – Gwybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol
- Adran 44 – Gwybodaeth y gwaherddir ei datgelu gan y gyfraith

5.5 Dyma enghreifftiau o eithriadau cymwys (pan fydd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol):

- Adran 22 – Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol
- Adran 30 – Ymchwiliadau ac achosion a gynhelir gan awdurdodau cyhoeddus
- Adran 36 – Rhagfarn at gynnal materion cyhoeddus yn effeithiol
- Adran 43 – Buddiannau Masnachol
- Adran 42 – Braint broffesiynol gyfreithiol

5.6 Wrth benderfynu a ddylid rhoi eithriad cymwys (a chadw gwybodaeth yn ôl) rhaid rhoi ystyriaeth ddilys i benderfynu a fyddai rhyddhau'r wybodaeth o fudd i'r cyhoedd ac a fyddai'n drech na'r rhesymau y tu ôl i'r eithriad.

5.7 Nid yw'n ddigon bod budd cyhoeddus ynghlwm wrth yr wybodaeth y gofynnir amdani. Mae gan y sawl sy'n gwneud y cais fuddiant yn yr wybodaeth, ond nid yw hyn yn gyfystyr â "budd y cyhoedd".

5.8 Mae gan y Cyngor Optegol Cyffredinol yr hawl i wrthod rhyddhau data personol neu wybodaeth arall os yw'n dod o dan un o'r eithriadau yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data. Er enghraifft, gallai hyn fod oherwydd ei fod yn cael ei ddarparu'n gyfrinachol neu oherwydd y gallai effeithio ar ein gallu i gyflawni ein rôl fel rheoleiddiwr.

4.4 Os yw mynediad y sawl sy'n gwneud y cais wedi cael ei gyfyngu o dan ein polisi ymddygiad derbyniol, byddwn yn ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau, ond efallai y bydd yn newid y ffordd rydym yn gohebu ynghylch y cais/ceisiadau, yn unol â'r cyfyngiadau.

## 6. Trin Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

---

6.1 Mae'r adran hon yn amlinellu ein cyfrifoldebau cyfreithiol wrth brosesu cais.

6.2 Mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu cydlynu gan y Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth, a fydd yn cofnodi pob cais am wybodaeth a gohebiaeth berthnasol yn unol â'r Amserlen Cadw Data.

6.3 Mae'r holl gyflogeion, aelodau, gweithwyr, contractwyr a'r rheini sy'n gweithio ar ein rhan yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl geisiadau am wybodaeth yn cael eu hanfon ymlaen yn brydlon i'r blwch derbyn Llywodraethu Gwybodaeth [IG@optical.org](mailto:IG@optical.org) a bydd y Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth yn ymateb i'r ceisiadau hyn yn brydlon.

6.4 Bydd pob cais am wybodaeth yn cael ei gydnabod o fewn 5 diwrnod gwaith i dderbyn y cais. Ystyrir pob cais yn unigol ar sail ei rinweddau.

6.5 Mae gennym ddyletswydd i gadarnhau neu wadu a yw'r wybodaeth y gofynnir amdani'n cael ei chadw ac, os ydym yn cadw'r wybodaeth, ei darparu i'r sawl sy'n gwneud y cais yn y fformat y gofynnwyd amdani. Os nad yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani'n cael ei chadw, rhaid rhoi gwybod i'r sawl sy'n gwneud y cais. Efallai y bydd rhai amgylchiadau eithriadol lle na fyddai'n rhesymol cadarnhau neu wadu a yw'r wybodaeth yn cael ei chadw.

6.6 Rhaid i chi ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith i ddyddiad eu derbyn, lle byddwn yn cadarnhau a allwn ddarparu'r wybodaeth neu a ystyrir ei bod wedi'i heithrio.

6.7 Os bydd eithriad yn cael ei ystyried, a bod angen amser ychwanegol arnom i gwblhau prawf budd y cyhoedd, byddwn yn rhoi gwybod yn brydlon i'r sawl sy'n gwneud cais pa eithriadau sy'n cael eu hystyried gennym a byddwn yn darparu

dyddiad cau newydd ar gyfer ymateb. Ni fyddwn yn cymryd mwy na 20 diwrnod gwaith arall i ystyried yr eithriad.

6.8 Bydd cais yn cael ei wrthod mewn rhai achosion. Os felly, cyhoeddir hysbysiad gwrthod yn nodi'r penderfyniad, yr eithriad y dibynnir arno a'r rhesymau pam.

6.9 Bydd yr ymatebion bob amser yn cynnwys manylion cyswllt y person sydd wedi delio â'r cais, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol lle mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi cytuno drwy'r Polisi Ymddygiad Derbyniad y dylai aelod arall o staff ddelio â'r mater.

6.10 Byddwn bob amser yn ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Os nad yw'r unigolyn yn fodlon â'n hymateb, byddwn yn rhoi gwybodaeth am ei hawl i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn yr ymateb terfynol a gofyn iddynt benderfynu a yw cais yr unigolyn wedi cael sylw priodol.

6.11 Os nad oes contractau ar waith, byddwn yn sicrhau bod Cytundebau Rhannu Data yn cael eu sefydlu gydag unrhyw drydydd parti.

## **Costau**

6.12 Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus wrthod ceisiadau am wybodaeth a fyddai'n costio dros £450 i ymateb iddynt. Cyfeirir at hyn fel y "terfyn priodol".

6.13 Mae'n ofynnol i ni amcangyfrif a yw cais yn debygol o dorri'r terfyn priodol yn unol â rheoliadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Os yw'n gwneud hynny, byddwn yn cyhoeddi hysbysiad gwrthod ysgrifenedig ac yn ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith i ddyddiad cydnabod eich cais.

## **7. Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth - Apeliadau a chwynion**

---

### **Cam un: Adolygiad mewnol**

7.1 Os nad yw'r sawl sy'n gwneud y cais yn fodlon â'n hymateb, gall ofyn i ni, yn ysgrifenedig ac o fewn 40 diwrnod calendr i'r ymateb, gwblhau adolygiad mewnol. Dylid cyfeirio'r cais at y Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth.

7.2 Bydd cyflogai heb unrhyw gysylltiad blaenorol, ar raddfa uwch fel arfer, yn ailystyried ac yn ymateb yn unol â'r amserlen.

7.3 Bydd ceisiadau am adolygiad mewnol yn cael eu cydnabod cyn pen 5 diwrnod gwaith ar ôl eu derbyn a bydd ymateb yn cael ei ddarparu dim hwyrach na 20 diwrnod gwaith ar ôl eu derbyn.

### **Cam dau: Cwynion i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**

7.4 Gall y rheini sy'n dal yn anfodlon gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am fethiant i wneud unrhyw un o'r canlynol;

- Darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani
- Ymateb i'r cais o fewn 20 diwrnod gwaith
- Esbonio pam fod angen mwy nag 20 diwrnod gwaith
- Rhoi cyngor a chymorth
- Darparu gwybodaeth yn y fformat y gofynnwyd amdano
- Esbonio'n glir unrhyw reswm dros wrthod cais;
- Gwneud cais am eithriad yn gywir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

7.5 Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn penderfynu a yw'r cais wedi cael ei drin yn briodol yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a bydd yn darparu hysbysiad penderfynu, i'r sawl sy'n gwneud y cais ac i'r Cyngor Optegol Cyffredinol.

7.6 Ni fydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystyried cwyn dan yr amgylchiadau canlynol;

- Pan nad yw'r Unigolyn wedi dilyn ein trefn gwyno fewnol
- Lle bu oedi gormodol cyn gwneud cais i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Os yw'r cais yn ddisylwedd neu'n flinderus
- Os yw'r cais wedi'i dynnu'n ôl neu wedi'i adael

7.7 Os yw'r penderfyniad yn mynd yn ein herbyn ni, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi'r camau y mae'n rhaid i ni eu cymryd i gywiro unrhyw broblemau ynghyd ag amserlen o ran pryd y disgwylir i hyn gael ei gwblhau.

## **8. Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015**

8.1 Yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015 yn caniatáu ar gyfer "ailddefnyddio" rhywfaint o wybodaeth y sector cyhoeddus at ddiben ar wahân i'r dasg gyhoeddus gychwynnol y cafodd ei chynhyrchu ar ei chyfer. Byddai hyn yn golygu y gall sefydliad ailddefnyddio gwybodaeth sydd eisoes wedi'i chyhoeddi. Y pwrpas yw ei gwneud hi'n haws ailddefnyddio gwybodaeth, gan arwain at fanteision cymdeithasol a sifil economaidd.

8.2 Os ydych chi'n dymuno ailddefnyddio unrhyw ran o'n gwybodaeth gyhoeddus yn y modd hwn, anfonwch e-bost at y Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth: [IG@optical.org](mailto:IG@optical.org).